Chwaraeon RhCT
Sport RCT

12 Diwrnod y Nadolig 2021 - Enillydd 3ydd

# Clwb Criced Abercynon





Eleni, mae Clwb Criced Abercynon wedi cynnig sesiynau criced am ddim i blant rhwng 5 a 12 oed. Cynigwyd y sesiynau'n rhan o ddau gynllun Criced Cymru: All Stars Cricket a Dynamos Cricket. Cymerodd dros 50 o blant ran yn y sesiynau, sy'n fwy na'r blynyddoedd cynt.

Gweithiodd y criw hyfforddi'n ddiflino er mwyn cynnig y ddwy raglen, gan roi o’u hamser ar ddydd Iau a Gwener trwy'r haf. Roedd yr hyfforddwyr yn sicrhau bod y sesiynau'n hwyl ac roedd y plant yn eu mwynhau'n arw!